# Cofrestru ar gyfer Fy Mhensiwn Ar-lein – Rydw i Wedi Derbyn e-bost yn Gofyn i Mi Gofrestru

Mae'r Gronfa Bensiwn wedi lansio fersiwn o Fy Mhensiwn Ar-lein sy'n fwy modern a chyfredol.

**Os ydych wedi cofrestru o'r blaen ar gyfer Fy Mhensiwn Ar-lein, bydd angen i chi ailgofrestru ar gyfer y system newydd gan na fydd eich cyfrif wedi trosglwyddo.**

Mae'r gwasanaeth newydd yn eich galluogi i gael mynediad i'ch cyfrif pensiwn ar-lein mewn ffordd syml a hawdd.

### Cam 1 - Creu cyfrif newydd

Cliciwch ar ddolen Fy Mhensiwn Ar-lein ar hafan ein gwefan.

Byddwch yn cael eich tywys i'r dudalen mewngofnodi. Cliciwch ar y botwm **creu cyfrif .**





Ticiwch y blwch i gadarnhau eich bod yn deall sut mae'r wefan yn defnyddio'ch data personol a chliciwch y botwm **Gadewch i ni ddechrau**.





### Cam 2 – Cadarnhau eich manylion.

Mae angen i ni sicrhau bod gennym gyfrif pensiwn ar eich cyfer, drwy nodi eich Cyfenw, Dyddiad Geni a rhif yswiriant gwladol ac yna creu cyfrinair diogel a sefydlu gwiriad dilysu 2 gam.  Cliciwch y botwm **cyflwyno** i fynd ymlaen.





### Cam 3 – Gwirio'ch mewnflwch e-bost

Os yw'r manylion a nodwyd yn cyd-fynd â'ch cofnod, gofynnir i chi wirio'ch cyfeiriad e-bost a chadarnhau bod e-bost yn cael ei anfon.  Mae'r ddolen yn yr e-bost i chi glicio arni i greu cyfrinair newydd. Mae eich cyswllt cyfrinair newydd yn ddilys am 24 awr.  **Os nad oes gennych fynediad i'r cyfeiriad e-bost hwn mwyach, bydd angen i chi gysylltu â ni i ddiweddaru eich cyfeiriad e-bost.**





Rhowch eich cyfrinair newydd a chliciwch ar y botwm **Cyflwyno** i fynd ymlaen.

# Cofrestru ar gyfer Fy Mhensiwn Ar-lein – Rydw i Wedi Derbyn e-bost yn Gofyn i Mi Gofrestru





## Cam 4 – Sefydlu Dilysiad SMS

Mae system newydd Fy Mhensiwn Ar-lein bellach yn cynnwys dilysiad neges destun. Ar ôl creu eich cyfrinair, bydd angen i chi sefydlu dilysiad SMS. Cliciwch y botwm **parhau** i fynd ymlaen.





## Cam 5- Sefydlu Dilysiad SMS

Mae'r dudalen Sefydlu Dilysiad SMS yn gofyn i chi nodi'ch rhif ffôn symudol a fydd yn cael ei ddefnyddio i dderbyn codau mynediad ar gyfer eich cyfrif. Ar ôl nodi'r rhif, dewiswch y botwm **anfon neges destun**.




## Cam 6 – Cadarnhau eich cod unigryw

Bydd angen i chi nodi'r cod unigryw 6 digid sydd wedi'i anfon i'ch ffôn symudol. Cliciwch ar y botwm **Mewngofnodi** i fynd ymlaen.




## Rydych wedi llwyddo i Gofrestru'r Cyfrif

Byddwch nawr wedi mewngofnodi'n awtomatig i ddangosfwrdd eich cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein.

